

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Ymchwiliad i Reoli Tir yn Gynaliadwy

Mai 2014



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopiau caled gan:
Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8639
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: PwyllgorAC@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2014
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

**Ymchwiliad i Reoli Tir yn
Gynaliadwy**

Mai 2014



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011 gyda chylch gwaith i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion gwariant, gweinyddu a pholisi sy'n cynnwys: cynnal, datblygu a chynllunio ar gyfer amgylchedd ac adnoddau ynni naturiol Cymru.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



Alun Ffred Jones (Cadeirydd)
Plaid Cymru
Arfon



Mick Antoniw
Llafur Cymru
Pontypridd



Russell George
Ceidwadwyr Cymreig
Sir Drefaldwyn



Llyr Gruffydd
Plaid Cymru
Gogledd Cymru



Julie James
Llafur Cymru
Gorllewin Abertawe



Julie Morgan
Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd



William Powell
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Antoinette Sandbach
Ceidwadwyr Cymreig
Gogledd Cymru



Joyce Watson
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Roedd yr Aelod canlynol hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



Dafydd Elis-Thomas
Plaid Cymru
Dwyfor Meirionnydd

Ni wnaeth yr Aelod canlynol gymryd rhan mewn trafodion yn ymwneud a'r ymchwiliad hwn:



Vaughan Gething
Llafur Cymru
De Caerdydd a Phenarth

Cynnwys

Crynodeb	5
Nodyn ar sut yr aethom ati i gasglu tystiolaeth.....	5
Diolchiadau	6
Argymhellion y Pwyllgor	7
1. Diffiniad o Reoli Tir yn Gynaliadwy	11
Barn Rhanddeiliaid.....	11
Barn Llywodraeth Cymru	12
Barn y Pwyllgor	13
Argymhelliad 1 – diffinio rheoli tir yn gynaliadwy	14
2 Graddfa Ddaeryddol	15
Barn rhanddeiliaid	15
Barn Llywodraeth Cymru	18
Barn y Pwyllgor	18
Argymhelliad 2 – pennu canlyniadau lefel uchel	20
Argymhelliad 3 – cyhoeddi cynllun gweithredu ar gyfer datblygu’r Polisi Adnoddau Naturiol	20
Argymhelliad 4 – rhoi grym i reolwyr tir	20
Argymhelliad 5 – treialu’r model ‘dewis wedi’i gyfeirio	20
3. Mesur Cynnydd: Data a Monitro.....	21
Barn rhanddeiliaid	21
Barn Llywodraeth Cymru	22
Barn y Pwyllgor	23
Argymhelliad 6 – datblygu strategaeth fonitro.....	24
Argymhelliad 7 – datblygu cynlluniau peilot ar gyfer casglu data	24
4. Cyfathrebu a Throsoglwyddo Gwybodaeth	25
Barn rhanddeiliaid	25
Gwasanaethau Ecosystem	25
Gwyddoniaeth a Thechnoleg Amaethyddol.....	26

Barn Llywodraeth Cymru	27
Barn y Pwyllgor	27
Argymhelliad 8 - gwella'r ffordd o drosglwyddo gwybodaeth	28
Argymhelliad 9 - ehangu Cyswllt Ffermio	28
5. Proffidioldeb Gwledig a Chynhyrchu Bwyd.....	30
Barn Rhanddeiliaid.....	30
Barn Llywodraeth Cymru	32
Barn y Pwyllgor	32
Argymhelliad 10 - cynllunio olyniaeth.....	33
6. Darparu Gwasanaethau Ecosystemau	34
Barn rhanddeiliaid	34
Barn Llywodraeth Cymru	37
Barn y Pwyllgor	37
Argymhelliad 11 - cydlynu gwaith ar wasanaethau ecosystem	37
Argymhelliad 12 - talu am wasanaethau ecosystemau.....	38
Argymhelliad 13 - treialu gwasanaethau ecosystemau.....	39
Argymhelliad 14 - buddsoddiad gan y sector preifat	39
Atodiad A - Cylch Gorchwyl	40
Atodiad B - Tystion	42
Atodiad C - Tystiolaeth Ysgrifenedig.....	45

Crynodeb

Ers mis Mehefin 2013 rydym wedi bod yn ystyried Rheoli Tir yn Gynaliadwy yng Nghymru. Er mwyn deall y mater, rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda ffermwyr, rheolwyr tir, cadwraethwyr a gwyddonwyr ac rydym wedi treulio amser ar lawr gwlad gyda nhw er mwyn dysgu mwy am y cyfleoedd a'r heriau o reoli tir yn gynaliadwy.

Rydym wedi canfod y canlynol:

- Mae angen diffiniad clir o reoli tir yn gynaliadwy;
- Mae angen sicrhau canlyniadau lefel uchel ar gyfer rheoli tir yn gynaliadwy ar lefel genedlaethol a rhanbarthol, ond mae'n rhaid rhoi'r grym i reolwyr tir gyfrannu eu darpariaeth mewn ffordd sy'n addas i'w hamgylchiadau penodol;
- Mae angen gwneud mwy i gau bylchau mewn gwybodaeth a chasglu data'n fwy cyson;
- Mae angen i ni wella ein ffordd o rannu gwybodaeth a defnyddio dulliau arloesol ar lawr gwlad; ac
- Mae sefydlu marchnadoedd ar gyfer gwasanaethau ecosystemau yn hanfodol i gynaliadwyedd rheoli tir yng Nghymru yn y dyfodol.

Nodyn ar sut yr aethom ati i gasglu tystiolaeth

Yn ogystal â'r dystiolaeth ffurfiol a gasglwyd gennym, roedd gwneud ysguboriau, ceginau fferm, ffriddoedd, yr ucheldir, cefn cerbydau Land Rover, canolfannau croeso a labordai yn fforymau ar gyfer ein trafodaethau wedi cael effaith rymus arnom a bydd y negeseuon pwysig a glywsom ar lawr gwald yn aros gyda ni y tu hwnt i'r gwaith hwn.

Dylanwadodd rhanddeiliaid ar ein dull o wneud y gwaith hwn drwy gymryd rhan mewn gweithdy ar ddechrau ein hymchwiliad i ddatblygu ein cylch gorchwyl. Hefyd, aethom ati i brofi ein casgliadau a'n hargymhellion yn yr adroddiad hwn gyda rhanddeiliaid mewn gweithdy ar ddiwedd ein hymchwiliad. Mae hyn wedi gwneud cyfraniad sylweddol at ein gwaith ac mae'n fodel yr hoffem ei ddefnyddio eto yn y dyfodol.

Diolchiadau

Rydym wedi'n cynorthwyo yn ein gwaith gan yr Athro Terry Marsden, Cyfarwyddwr Sefydliad Ymchwil Mannau Cynaliadwy Prifysgol Caerdydd. Hoffem gydnabod ei gyfraniad gwerthfawr at ein gwaith a diolch iddo am ei arweiniad dysgedig.

Wrth gwrs, mae ein gwaith ond cystal â'r dystiolaeth a ddaw ger ein bron a diolch i bawb sydd wedi cyfrannu. Diolch yn arbennig i'r ffermwyr, rheolwyr tir, cadwraethwyr, gwyddonwyr a swyddogion prosiect a groesawodd ni ar eu tir, i'w ffermydd, labordai ac, ar adegau, i'w cartrefi. Gyda phobl fel hyn ar y rheng flaen, gallwn fod yn obeithiol am reoli tir yng Nghymru yn y dyfodol.

Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru i'w gweld isod, yn y drefn y byddant yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau sy'n cyd-fynd â'r argymhellion:

Argymhelliad 1. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn coethi ei diffiniad o 'reoli cynaliadwy' i ystyried ein hegwyddorion allweddol. Dylid gwneud hyn cyn cyflwyno'r Bil Amgylchedd, ac yn ddelfrydol dylid ei gynnwys yn y Bil drafft y mae'r Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd wedi ymrwymo i'w ddarparu erbyn diwedd 2014. Ein hegwyddorion allweddol yw:

- Y dylid seilio unrhyw ddiffiniad o reoli tir yn gynaliadwy ar ddiffiniad Llywodraeth Cymru o ddatblygu cynaliadwy a chydabod cyd-ddibyniaeth anghenion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd Cymru heddiw ac yn y dyfodol.
- Y dylai unrhyw ddiffiniad gydnabod y dylai rheoli tir yn gynaliadwy yng Nghymru olygu diogelu a gwella gwasanaethau ecosystem a bioamrywiaeth a'r manteision cyhoeddus y maent yn eu darparu i gymdeithas Cymru.
- Y dylai unrhyw ddiffiniad gydnabod pwysigrwydd sicrhau bod busnesau tir yng Nghymru, gan gynnwys busnesau amaethyddol a choedwigaeth, yn broffidiol ac yn gallu parhau i gefnogi cymunedau gwledig llewyrchus.
- Y dylai rheoli tir yn gynaliadwy geisio diogelu tirweddau pwysicaf ac anwylaf Cymru. (Tudalen 14)

Argymhelliad 2. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys canlyniadau sydd wedi'u hesbonio'n glir ar gyfer rheoli tir yn gynaliadwy yn ei Pholisi Adnoddau Naturiol. (Tudalen 20)

Argymhelliad 3. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi amserlen sy'n nodi sut y bydd yn datblygu Polisi Adnoddau Naturiol rhwng nawr a'r dyddiad cwblhau disgwylidig (h.y. 2016-17). Dylai'r amserlen hon:

- gynnwys manylion sut y bydd canlyniadau rheoli tir yn gynaliadwy yn cael eu datblygu, eu hymgorffori a'u cyfathrebu;

- egluro sut y bydd rhanddeiliaid yn cymryd rhan; a
- sut y bydd yn cael ei gyhoeddi cyn cyflwyno'r Bil Amgylchedd.
(Tudalen 20)

Argymhelliad 4. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio ffyrdd y gellir cynllunio cynlluniau cyfredol, fel Glastir, fel eu bod yn rhoi grym i dirfeddianwyr wneud penderfyniadau am sut i reoli tir yn gynaliadwy ar lawr gwlad. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru ddarparu manylion i ni ynghylch sut y bydd hyn yn cael ei roi ar waith cyn diwedd 2014.
(Tudalen 20)

Argymhelliad 5. Rydym yn argymell bod Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ei gynlluniau peilot, yn gwerthuso'r defnydd posibl o fodolau cyflawni 'dewis wedi'i gyfeirio' ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniadau'r gwerthusiadau hyn ar ddiwedd y prosiectau peilot.
(Tudalen 20)

Argymhelliad 6. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu a mabwysiadu fframwaith tystiolaeth i asesu cynnydd tuag at reoli tir yn gynaliadwy yng Nghymru. Dylai'r fframwaith:

- nodi ffynonellau data a bylchau mewn gwybodaeth ar hyn o bryd;
- cynnwys amcanion clir ynglŷn â pha ddangosyddion cynnydd y bydd angen i ni eu mesur;
- hyn, dylai nodi cynllun gweithredu gyda blaenoriaethau ar gyfer gwella'r broses o gasglu data;
- rhoi arwydd o'r adnoddau y bydd eu hangen arnom i gyflawni ein hamcanion; a
- nodi rôl gwahanol sefydliadau yn y broses o gasglu data.

Dylai'r gwaith hwn adeiladu ar y gwaith sy'n cael ei wneud eisoes gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â data ar fioamrywiaeth a chefnogi'r broses o roi'r Bil Amgylchedd ar waith. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru roi'r argymhelliad hwn ar waith erbyn diwedd mis Mawrth 2015.
(Tudalen 24)

Argymhelliad 7. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu cynlluniau peilot i gynnwys rheolwyr tir yn y broses o gasglu data. Drwy wneud hynny, dylai sicrhau bod y data sy'n cael ei gasglu ac unrhyw gasgliadau a geir o'r data yn cael eu bwydo'n ôl yn ysturlon i reolwyr tir. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru ddarparu manylion i ni ar

sut a phryd y bydd yn rhoi'r argymhelliad hwn ar waith wrth ymateb i'r adroddiad hwn. (Tudalen 24)

Argymhelliad 8. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y Cynllun Datblygu Gwledig a'r cynllun Glastir diwygiedig yn cael eu defnyddio i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo'n well o'n canolfannau ymchwil i reolwyr tir ar lawr gwlad ac i gefnogi a hwyluso trosglwyddo gwybodaeth rhwng rheolwyr tir. Hefyd, dylid ehangu'r gefnogaeth hon i annog ymchwil a datblygu sy'n adlewyrchu anghenion rheolwyr tir. (Tudalen 28)

Argymhelliad 9. Rydym yn argymell ehangu'r dull a ddefnyddir gan Cyswllt Ffermio i gefnogi gwasanaethau i ddarparu gwasanaethau pwrpasol i reolwyr tir, gan gynnwys y sector coedwigaeth, mewn perthynas ag arferion rheoli tir yn gynaliadwy. (Tudalen 28)

Argymhelliad 10. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried cynnwys darpariaeth cyngor a chymorth ar gynllunio olyniaeth i ffermwyr presennol yn y Cynllun Datblygu Gwledig nesaf. (Tudalen 33)

Argymhelliad 11. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd rôl gydlynol i ddwyn ynghyd y gwaith sy'n cael ei wneud eisoes drwy brosiectau unigol ar ddarparu gwasanaethau ecosystemau a dosbarthu'r gwaith hwnnw. Efallai y bydd am ystyried yr astudiaethau achos a gasglwyd ac a gyhoeddwyd gennym yn <http://tiny.cc/ey27ex> (Tudalen 37)

Argymhelliad 12. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut y bydd yn cefnogi datblygiad system talu am wasanaethau ecosystemau a'r amserlen y mae'n rhagweld ar gyfer datblygu a/neu ddefnyddio marchnadoedd priodol ar gyfer gwasanaethau ecosystemau yng Nghymru. Gofynnwn iddi ddarparu'r wybodaeth hon i ni cyn diwedd 2014. (Tudalen 38)

Argymhelliad 13. Rydym yn argymell bod y Cynllun Datblygu Gwledig nesaf yn darparu cefnogaeth ar gyfer treialu a datblygu darpariaeth o wasanaethau ecosystemau drwy Glastir a drwy rannau eraill o'r cynllun, gan gynnwys trosglwyddo gwybodaeth a ffyrdd arloesol o gyllido fel benthyciadau. Wrth gyflawni'r argymhelliad hwn, dylai Llywodraeth Cymru ystyried yn ofalus sut mae'n cynllunio cyfraddau talu ar gyfer gwahanol gynlluniau. (Tudalen 39)

Argymhelliad 14. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn arwain y gwaith o ddatblygu partneriaethau i ddenu a chefnogi prosiectau gyda buddsoddiad gan fentrau yn y sector preifat. (Tudalen 39)

1. Diffiniad o Reoli Tir yn Gynaliadwy

Barn Rhanddeiliaid

1. Er nad oedd llawer o gytuno yn y dystiolaeth a dderbyniwyd gennym am union eiriad diffiniad o reoli tir yn gynaliadwy, cafwyd consensws cyffredinol bod angen diffiniad y cytunir arno. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, nododd Cyfoeth Naturiol Cymru ddiffyg diffiniad fel rhwystr allweddol i ddarpariaeth. Nododd nad yw rheoli tir yn gynaliadwy wedi'i ddiffinio'n ddigon da ac nad yw wedi ei sefydlu ar lefel genedlaethol.¹ Yn ei dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, siaradodd Mr Atkins o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog am yr angen i sicrhau consensws cyffredin² ac yn ei thystiolaeth ysgrifenedig nododd Cymdeithas Genedlaethol Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ei bod yn:

“keen to ensure that there is clear and consistent use and communication of terminology to support better understanding of land management objectives.”³

2. Cytunodd y mwyafrif o randdeiliaid a fynychodd ein gweithdy ar faterion allweddol a chasgliadau drafft bod angen nodi diffiniad cyffredin o reoli tir yn gynaliadwy ac roeddynt o blaid ein cynigion ar gyfer egwyddorion allweddol y gallai Llywodraeth Cymru eu defnyddio i ddatblygu diffiniad y cytunir arno.⁴

3. Clywsom fod rhywfaint o'r gwaith ar gytuno ar flaenoriaethau ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy rhwng undebau'r ffermwyr a sefydliadau'r amgylchedd eisoes wedi'i wneud gan gyrff rhagflaenol Cyfoeth Naturiol Cymru.

4. Er nad oedd consensws cyffredinol ymysg rhanddeiliaid ynglŷn ag a oedd angen diffiniad cyfreithiol o reoli tir yn gynaliadwy ai peidio, cytunwyd y byddai angen i unrhyw ddiffiniad a fabwysiadwyd fod yn

¹ Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Ymateb i'r Ymgynghoriad SLM16, *Ymchwiliad i Reoli Tir yn Gynaliadwy yng Nghymru; Cyflwyniad gan Cyfoeth Naturiol Cymru*, Medi 2013

² Cofnod y Trafodion [para 116], 15 Ionawr 2014, y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

³ Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Ymateb i'r Ymgynghoriad SLM2, *Ymchwiliad i Reoli Tir yn Gynaliadwy yng Nghymru; Cyflwyniad gan Gymdeithas Genedlaethol Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol*, Medi 2013

⁴ Mae manylion y gweithdy hwn a fideo o'r negeseuon allweddol ar gael yn <http://tinyurl.com/q8d6n5b> [Fel ar 16 Ebrill 2014]

gyson â'r diffiniadau ar gyfer rheoli cynaliadwy a datblygu cynaliadwy a gynigiwyd yn y Bil Amgylchedd a Bil Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn ei thystiolaeth lafar, nododd Ms Sherwood o Cyfoeth Naturiol Cymru eu bod wedi nodi'r angen am gysondeb rhwng y ddau Fil hyn a'r Bil Cynllunio yn eu hymateb i'r Papur Gwyn ar y Bil Amgylchedd:

“In our response to the environment Bill White Paper, we flagged up that these Bills all need to be going in the same direction of travel and, preferably, use common language, so that they are clear to everybody and be geared towards delivering the outcomes set out in the programme for government.”⁵

5. Yn ein gweithdy gyda rhanddeiliaid ar ganfyddiadau cychwynol yr adroddiad, mynegodd nifer o bobl amheuon am y diffiniad o 'reoli cynaliadwy' yn y Papur Gwyn ar y Bil Amgylchedd. Mynegodd rhai bryderon am y diffyg cyfeiriad at fioamrywiaeth, tra bod eraill yn bryderus am ei eglurder.

6. Nododd rhai rhanddeiliaid y byddai angen i'r Llywodraeth gefnogi unrhyw ddiffiniad o reoli tir yn gynaliadwy a fyddai'n cael ei fabwysiadu. Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd Mr Byrne o Ymddiriedolaethau Natur Cymru:

“Some of the new Bills—the sustainable development Bill and the environment Bill—bring concepts such as living within environmental limits and land management not just to Natural Resources Wales or to the Minister, Alun Davies's portfolio, but to other portfolios as well. It is about trying to bring about opportunities in other ministerial portfolios to look at land management and sustainable land management as well.”⁶

Barn Llywodraeth Cymru

7. Cytunodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd fod angen diffiniad, ond un gwahanol iawn. Mae'r Gweinidog o'r farn bod angen diffiniad ehangach o "reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy", fel y nodir yn y Papur Gwyn ar y Bil Amgylchedd:

⁵ Cofnod y Trafodion [para 98] 29 Ionawr 2014, y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

⁶ Cofnod y Trafodion [para 30], 15 Ionawr 2014, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

“ystyr rheoli cynaliadwy yw’r camau y mae angen eu cymryd ar y cyd i reoli’r gwaith o gynnal, gwella a defnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd, neu ar gyflymder, sy’n galluogi pobl a chymunedau i ddarparu ar gyfer eu lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, gan gadw systemau cynnal bywyd natur yr un pryd. Wrth wneud hynny, sicrheir na fydd y budd o’r defnydd i’r genhedlaeth bresennol yn lleihau’r gallu i gwrdd ag anghenion a dyheadau cenedlaethau’r dyfodol.”⁷

8. Yn ogystal, dywedodd na fyddai’n symud i ffwrdd o’r diffiniad hwn oni bai bod rhesymau cryf iawn yn cael eu cyflwyno iddo.⁸

9. Cadarnhaodd y Gweinidog fod yr holl ddiffiniadau a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru yn gyson â diffiniadau Ewropeaidd a rhyngwladol cyfredol.

Barn y Pwyllgor

10. Dengys y dystiolaeth a dderbyniwyd gennym fod rhanddeiliaid yn galw am ddiffiniad er mwyn i’r holl reolwyr tir yng Nghymru gael eglurder a sicrwydd am y canlyniadau y gofynnir iddynt eu cyflawni.

11. Rydym yn falch bod y Gweinidog yn cydnabod yr angen am ddiffiniad, a gallwn ddeall pam ei fod o blaid diffiniad ehangach.

12. Fodd bynnag, nid ydym wedi’n hargyhoeddi’n llwyr y bydd y diffiniad o ‘reoli cynaliadwy’ a nodir yn y Papur Gwyn ar y Bil Amgylchedd yn mynd i’r afael â’r alwad gan reolwyr tir am fwy o eglurder, ac nid ydym wedi’n hargyhoeddi bod yr holl randdeiliaid yn fodlon â’r diffiniad hwn fel y mae wedi’i ddrafftio ar hyn o bryd.

13. Yn ystod ein gweithdy i randdeiliaid ar 27 Mawrth 2014, roedd yr adborth a dderbyniwyd gennym yn nodi bod yr egwyddorion drafft a ddatblygwyd gennym yn cynnig gweledigaeth gliriach o reoli tir yn gynaliadwy na’r diffiniadau a ddarparwyd yn y Papur Gwyn ar y Bil Amgylchedd ar hyn o bryd.

14. Gan gydnabod bod gennym waith pellach i’w wneud o hyd cyn cyflwyno’r Bil Amgylchedd, credwn fod gan y Gweinidog ddigon o

⁷ Llywodraeth Cymru, *Tuag at Reoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy: Ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer Bil Amgylchedd*, 23 Hydref 2013

⁸ Cofnod y Trafodion [para 30], 1 Mai 2014, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

amser i goethi ei ddiffiniad o 'reoli cynaliadwy' gan ystyried yr egwyddorion canlynol:

- Y dylid seilio unrhyw ddiffiniad o reoli tir yn gynaliadwy ar ddiffiniad Llywodraeth Cymru o ddatblygu cynaliadwy a chydabod cyd-ddibyniaeth anghenion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd Cymru heddiw ac yn y dyfodol.
- Y dylai unrhyw ddiffiniad gydnabod yr angen i reoli tir yn gynaliadwy yng Nghymru i ddiogelu a gwella gwasanaethau ecosystem a bioamrywiaeth a'r manteision cyhoeddus y maent yn eu darparu i gymdeithas Cymru.
- Y dylai unrhyw ddiffiniad gydnabod pwysigrwydd sicrhau bod busnesau tir yng Nghymru, gan gynnwys busnesau amaethyddol a choedwigaeth, yn broffidiol ac yn gallu parhau i gefnogi cymunedau gwledig llewyrchus.
- Y dylai rheoli tir yn gynaliadwy geisio diogelu tirweddau pwysicaf ac anwylaf Cymru.

Argymhelliad 1 - diffinio rheoli tir yn gynaliadwy

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn coethi ei diffiniad o 'reoli cynaliadwy' i ystyried ein hegwyddorion allweddol. Dylid gwneud hyn cyn cyflwyno'r Bil Amgylchedd, ac yn ddelfrydol dylid ei gynnwys yn y Bil drafft y mae'r Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd wedi ymrwymo i'w ddarparu erbyn diwedd 2014. Ein hegwyddorion allweddol yw:

- Y dylid seilio unrhyw ddiffiniad o reoli tir yn gynaliadwy ar ddiffiniad Llywodraeth Cymru o ddatblygu cynaliadwy a chydabod cyd-ddibyniaeth anghenion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd Cymru heddiw ac yn y dyfodol.
- Y dylai unrhyw ddiffiniad gydnabod y dylai rheoli tir yn gynaliadwy yng Nghymru olygu diogelu a gwella gwasanaethau ecosystem a bioamrywiaeth a'r manteision cyhoeddus y maent yn eu darparu i gymdeithas Cymru.
- Y dylai unrhyw ddiffiniad gydnabod pwysigrwydd sicrhau bod busnesau tir yng Nghymru, gan gynnwys busnesau amaethyddol a choedwigaeth, yn broffidiol ac yn gallu parhau i gefnogi cymunedau gwledig llewyrchus.
- Y dylai rheoli tir yn gynaliadwy geisio diogelu tirweddau pwysicaf ac anwylaf Cymru.

2 Graddfa Ddaearyddol

Barn rhanddeiliaid

15. Mae'r rhai sydd wedi cymryd rhan yn yr ymchwiliad yn cytuno ar y cyfan bod angen fframwaith cenedlaethol ar reoli tir yn gynaliadwy sy'n cynnwys canlyniadau lefel uchel ar gyfer Cymru ynghyd â chynlluniau ar lefel fwy rhanbarthol i gyflawni'r canlyniadau lefel uchel hynny ar lawr gwlad. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, nododd Cyfoeth Naturiol Cymru fod pob graddfa'n briodol ar gyfer hyrwyddo Rheoli Tir yn Gynaliadwy,⁹ ac yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, nododd FUW (Undeb Amaethwyr Cymru):

“...it might not be appropriate to identify a ‘one size fits all’ approach to the delivery of sustainable land management policies and practices.

“Given, the wider variations in the geography and topography of Wales, the Union believes that consideration should be given to the use of a regional approach for the delivery of sustainable land management policies and practices as this will allow specific interventions to be developed and adopted to reflect local needs.”¹⁰

16. Roedd Parciau Cenedlaethol Cymru adleisio safbwyntiau Cyfoeth Naturiol Cymru ac Undeb Amaethwyr Cymru yn eu tystiolaeth ysgrifenedig. Nododd y gellir darparu ffordd o reoli tir yn gynaliadwy ar sawl lefel cyhyd â'u bod yn ategol:

“There are several scales at which sustainable land management can be delivered. Produce, product and service marketing can be delivered at local, regional and national levels, each tier being complementary and mutually supportive.”¹¹

⁹ Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Ymateb i'r Ymgynghoriad SLM16 *Ymchwiliad i Reoli Tir yn Gynaliadwy yng Nghymru; Cyflwyniad gan Cyfoeth Naturiol Cymru*, Medi 2013

¹⁰ Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Ymateb i'r Ymgynghoriad SLM13, *Ymchwiliad i Reoli Tir yn Gynaliadwy yng Nghymru; Cyflwyniad gan FUW*, Medi 2013

¹¹ Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Ymateb i'r Ymgynghoriad SLM8, *Ymchwiliad i Reoli Tir yn Gynaliadwy yng Nghymru; Cyflwyniad gan Barciau Cenedlaethol Cymru*, Medi 2013

17. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, galwodd Hybu Cig Cymru (HCC) am gynllun cenedlaethol gyda hyblygrwydd i ystyried materion lleol.¹²

18. Gwnaed gwahanol awgrymiadau o ran y raddfa briodol ar gyfer gweithredu rhanbarthol. Mae llawer o sefydliadau, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Coed Cadw, Cymdeithas Genedlaethol Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ac Ymddiriedolaethau Natur Cymru, yn cyfeirio yn eu dystiolaeth at ddalgylchoedd afonydd fel manau cychwyn posibl ar gyfer cynllunio rhanbarthol a rhoddwyd y raddfa hon fel enghraifft hefyd yn ystod sesiynau gweithdy. Yn eu dystiolaeth ysgrifenedig, cyfeiriodd RSPB Cymru, y Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad a Pharciau Cenedlaethol Cymru at reoli tir yn gynaliadwy gan ddefnyddio dull graddfa ddaearyddol o fynd ati. Yn ystod sesiynau'r gweithdy, awgrymodd rhai rhanddeiliaid y gallai rhanbarthau o wahanol feintiau fod yn briodol, yn dibynnu ar eu daearyddiaeth a'r pwysau amgylcheddol ac economaidd arnynt.

19. Cyfeiriodd sawl rhanddeiliad yn ystod sesiynau'r gweithdy at y cynigion a oedd wedi'u cynnwys yn y Papur Gwyn ar y Bil Amgylchedd ar gyfer cynlluniau rheoli Ardaloedd Adnoddau Naturiol. Yn gyffredinol, credai rhanddeiliaid y gallai'r cynlluniau hyn fod yn gyfrwng ar gyfer mwy o gynllunio rhanbarthol, ond byddai angen cydgysylltu da rhwng y cynigion ar gyfer y cynlluniau hyn a'r cynigion a nodir yn y Papur Gwyn ar Gynllunio.

20. Yn ogystal â chefnogi'r egwyddor o gynlluniau, neu ganlyniadau aml-haenog, roedd nifer o randdeiliaid o blaid yr egwyddor o roi'r grym i dirfeddianwyr gael mwy o lais yn y ffordd y maent yn cyflawni canlyniadau ar eu daliadau. Yn eu dystiolaeth ysgrifenedig, mae Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain a Chymdeithas Genedlaethol Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ac Ymddiriedolaethau Natur yn cefnogi'r egwyddor o wneud penderfyniadau ar lefel leol neu ar lefel y daliad o fewn fframwaith ehangach. Yn ei thystiolaeth, nododd Cymdeithas Genedlaethol Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ac Ymddiriedolaethau Natur:

“The NAAONB supports an expansion of the concept of
“subsidiarity” – the idea that decisions are best taken at as local

¹² Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Papur Pwyllgor E&S(4)-03-14 Papur 3, *Ymchwiliad i Reoli Tir yn Gynaliadwy yng Nghymru; Cyflwyniad gan Hybu Cig Cymru*, 29 Ionawr 2013

a scale as possible within a wider strategic framework agreed at a higher level.”¹³

21. Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd Mr Jones o Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, fod egwyddorion “lleoliaeth” a “rheoli ymaddasol” yn allweddol.¹⁴ Dywedodd Mr Davies, o Grŵp Organig Cymru, nad oedd rheolwyr tir wedi cael y grym i wneud penderfyniadau o dan rai elfennau o’r cynllun Glastir Uwch a arweiniodd at ddiffyg dealltwriaeth am y canlyniadau yr oedd gofyn i ffermwyr eu cyflawni:

“The farmer does not understand why so much money is coming to the farm but that he is not directly in control of the project himself.”¹⁵

22. Dylid nodi, ers i ni ddechrau ein hymchwiliad, bod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar gynigion i ddiwygio elfennau o Glastir o dan y Cynllun Datblygu Gwledig nesaf.

23. Clywsom hefyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru fod Hufenfa Hwlfordd yn enghraifft gadarnhaol o ffermwyr yn cael y grym i wneud penderfyniadau ar gyflawni. Roedd grŵp o ffermwyr wedi gweithio gyda First Milk i fabwysiadu camau gweithredu amrywiol i ostwng lefelau maethynnau yn yr ardal leol er mwyn gwneud iawn am unrhyw allyriadau carbon ychwanegol a fyddai’n cael eu cynhyrchu wrth i’r hufenfa arallgyfeirio i gynhyrchu caws. Cyfeiriodd Cyfoeth Naturiol Cymru at y cyfryw ddull gweithio fel ‘dewis wedi’i gyfeirio’ gyda ffermwyr yn cael rhestr o opsiynau a rhwydd hynt i ddewis y camau gweithredu mwyaf addas ar eu cyfer nhw.

24. Fodd bynnag, yn ei dystiolaeth lafar, nododd Mr Pawson o Cyfoeth Naturiol Cymru fod gan ddull fel hyn y potensial i gyflawni llawer mwy, ond bod yn rhaid i ni dderbyn bod mynd ati fel hyn yn mynd i gymryd mwy o amser ac y byddai angen sgiliau gwahanol o

¹³ Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Ymateb i’r Ymgynghoriad SLM8, *Ymchwiliad i Reoli Tir yn Gynaliadwy yng Nghymru; Cyflwyniad gan Cymdeithas Genedlaethol Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol*, Medi 2013

¹⁴ Cofnod y Trafodion [para 170] 15 Ionawr 2014, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

¹⁵ Cofnod y Trafodion [para 101] 24 Hydref 2013, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

bosibl.¹⁶ Hefyd, nododd y bydd angen i ni o bosibl dderbyn y gallai'r costau trafod, e.e. y swm y mae'n ei gostio i weinyddu cynllun, fod yn uwch o fynd ati fel hyn.

Barn Llywodraeth Cymru

25. Roedd cynigion Llywodraeth Cymru am Fil Amgylchedd yn nodi dull dwy haen o reoli adnoddau naturiol. Ar lefel genedlaethol, bydd y Polisi Adnoddau Naturiol yn nodi cyfeiriad lefel uchel ar gyfer pob polisi sy'n ymwneud ag adnoddau naturiol yng Nghymru. Bydd dull o reoli adnoddau naturiol ar sail ardal, a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, yn sail i'r polisi cenedlaethol hwn. Bydd yn ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru adrodd ar gynnydd tuag at gyflawni'r amcanion a nodir yn y Polisi Adnoddau Naturiol bob pum mlynedd o leiaf.

26. Nid yw ardaloedd daearyddol y dull ar sail ardal wedi'u diffinio ac maent yn parhau'n destun astudiaeth bellach. Mae Llywodraeth Cymru wedi treialu dull dalgyloedd afonydd mewn tri lleoliad (Tawe, Dyfi a Rhondda) ac mae'n bwriadu cynnal tair rhaglen beilot arall mewn gwahanol ardaloedd daearyddol, gan gynnwys ar raddfa dirwedd.¹⁷

Barn y Pwyllgor

27. Mae rhanddeiliaid wedi gofyn am i'r canlyniadau lefel uchel ar gyfer rheoli tir yn gynaliadwy gael eu hesbonio'n well. Er bod hyn yn ail-bwysleisio pwysigrwydd diffinio rheoli tir yn gynaliadwy yn well, rydym hefyd yn gweld y potensial o ddefnyddio'r Polisi Adnoddau Naturiol a ragwelir fel cyfrwng er mwyn gallu pennu canlyniadau lefel uchel.

28. Er ein bod yn gweld y rhesymeg o ddefnyddio'r fframwaith arfaethedig a nodir yn y Papur Gwyn ar y Bil Amgylchedd i ddatblygu polisi mewn perthynas â rheoli tir yn gynaliadwy, mae risgiau y gellid ei golli ymysg blaenoriaethau eraill mewn cynllun cenedlaethol. Rydym hefyd yn ymwybodol bod creu Polisi Adnoddau Naturiol yn dibynnu ar nifer o agweddau yr ydym yn ansicr yn eu cylch, gan gynnwys taith y Bil Amgylchedd a blaenoriaethau Llywodraeth nesaf Cymru. Pa un

¹⁶ Cofnod y Trafodion [para 116] 29 Ionawr 2014, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

¹⁷ Cofnod y Trafodion [para 59] 1 Mai 2014, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

bynag, mae amserlen y Papur Gwyn yn golygu bod creu'r Polisi ddwy i dair blynedd i ffwrdd, h.y. 2016-17.

29. Yn y cyfamser, mae'n bwysig bod sbardunau polisi eraill yn sicrhau bod polisi yn y maes hwn yn parhau i ddatblygu. Mae'r Cynllun Datblygu Gwledig newydd a Glastir ar ei newydd wedd yn enghreifftiau amlwg. Yn ogystal â'r rhain, credwn y dylem ddechrau gweithio ar lywio gweledigaeth ar gyfer rheoli tir yn gynaliadwy a'r broses o ymgynghori a gweithio gyda rhanddeiliaid ar y canlyniadau ar gyfer Polisi Adnoddau Naturiol yn y dyfodol.

30. Bydd angen i'r Polisi Adnoddau Naturiol ddarparu fframwaith ar gyfer cydbwysu'r gofynion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar ein hadnoddau naturiol. Ar sail ein dealltwriaeth bresennol, bydd y Bil Cenedlaethau'r Dyfodol arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru nodi sut y mae wedi ystyried tair colofn datblygu cynaliadwy wrth ddod i benderfyniad ar yr amcanion y mae'r polisi hwn yn eu diffinio.

31. Mae mater graddfa ddaearyddol wedi achosi tipyn o gyfyng-gyngor i ni. I ddechrau, roeddem yn credu y gallai dull dalgylchoedd afonydd gynnig y raddfa ddaearyddol orau. Er y gallai hyn fod yn briodol mewn rhai ardaloedd, cawsom ein hargyhoeddi'n fuan iawn na fyddai modd defnyddio'r dull hwn ledled Cymru. Er enghraifft, byddai'n amhriodol ar gyfer prosiectau graddfa tirwedd ucheldir sy'n aml yn rhychwantu sawl dalgylch.

32. Credwn y bydd ardaloedd o wahanol feintiau yn briodol, yn dibynnu ar eu daearyddiaeth a'r pwysau amgylcheddol ac economaidd sy'n bodoli ynddynt.

33. O fewn yr ardaloedd hyn, credwn fod angen diffinio canlyniadau lefel uchel ond y dylai rheolwyr tir gael y pŵer i gyfrannu at lywio sut mae'r canlyniadau hyn yn cael eu cyflawni ar lawr gwlad. Roeddem yn hoffi'r cysyniad o ddewis wedi'i gyfeirio (a gyflwynwyd i ni gan Cyfoeth Naturiol Cymru) ac mae rhinwedd mewn pwysu a mesur defnyddio'r dull hwn yn ehangach.

34. Mae gan y Bil Amgylchedd y potensial i sefydlu fframwaith ar gyfer y dull hwn drwy greu cynlluniau rheoli adnoddau naturiol ar sail ardal. Mae'n rhaid ystyried sut mae'r cynlluniau hyn yn cydberthyn â darpariaethau'r Bil Cynllunio ac mae'n rhaid ystyried gofynion cyfredol

ymhellach, neu bydd risg o leihau effeithiolrwydd posibl cynigion y Bil Amgylchedd.

Argymhelliad 2 – pennu canlyniadau lefel uchel

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys canlyniadau sydd wedi'u hesbonio'n glir ar gyfer rheoli tir yn gynaliadwy yn ei Pholisi Adnoddau Naturiol.

Argymhelliad 3 – cyhoeddi cynllun gweithredu ar gyfer datblygu'r Polisi Adnoddau Naturiol

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi amserlen sy'n nodi sut y bydd yn datblygu Polisi Adnoddau Naturiol rhwng nawr a'r dyddiad cwblhau disgwylidig (h.y. 2016-17). Dylai'r amserlen hon:

- gynnwys manylion sut y bydd canlyniadau rheoli tir yn gynaliadwy yn cael eu datblygu, eu hymgorffori a'u cyfathrebu;
- egluro sut y bydd rhanddeiliaid yn cymryd rhan; a
- sut y bydd yn cael ei gyhoeddi cyn cyflwyno'r Bil Amgylchedd.

Argymhelliad 4 – rhoi grym i reolwyr tir

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio ffyrdd y gellir cynllunio cynlluniau cyfredol, fel Glastir, fel eu bod yn rhoi grym i dirfeddianwyr wneud penderfyniadau am sut i reoli tir yn gynaliadwy ar lawr gwlad. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru ddarparu manylion i ni ynghylch sut y bydd hyn yn cael ei roi ar waith cyn diwedd 2014.

Argymhelliad 5 – treialu'r model 'dewis wedi'i gyfeirio

Rydym yn argymell bod Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ei gynlluniau peilot, yn gwerthuso'r defnydd posibl o fodelau cyflawni 'dewis wedi'i gyfeirio' ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniadau'r gwerthusiadau hyn ar ddiwedd y prosiectau peilot.

3. Mesur Cynnydd: Data a Monitro

Barn rhanddeiliaid

35. Nododd y rhan fwyaf o randdeiliaid fod gwella'r ffordd o goladu, defnyddio a chyfathrebu data yn un o'r camau allweddol os am sefydlu rheoli tir yn gynaliadwy yn llwyddiannus.

36. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, nododd Cyfoeth Naturiol Cymru fod diffyg mynediad at yr holl wybodaeth sydd ei hangen ar reolwyr tir yn rhwystr i ddatblygiad rheoli tir yn gynaliadwy yng Nghymru. Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei dystiolaeth ysgrifenedig:

“Numerous governmental and non-governmental monitoring programmes provide data relevant to SLM assessment. A fundamental challenge is to collect and collate these data, and any additional data required to fill gaps, in consistent and easily accessible formats to inform SLM assessment. Meeting this challenge will require committing resources to establish and maintain data sets that can be made widely available across Wales via the web. Data confidentiality for some sources remains an issue.”¹⁸

37. Darparwyd sawl enghraifft o ffynonellau data cyfredol ac roedd y rhanddeiliaid yn cytuno ar y cyfan nad yw'r data hwn yn cael ei reoli'n effeithiol. Nododd rhai rhanddeiliaid, gan gynnwys Parciau Cenedlaethol Cymru a Coed Cadw, y gallai'r canolfannau cofnodion lleol gyfrannu mwy at y gwaith o gadw a chydlynu data.

38. Mae'n werth nodi bod rhanddeiliaid wedi gwneud sylwadau tebyg yn ystod ein hymchwiliad i Rywogaethau Goresgynnol Estron yn 2013.¹⁹

39. Wrth gydnabod yr angen i fynd i'r afael ar unwaith â diffygion data a thystiolaeth, clywsom hefyd am yr angen i sicrhau bod gwaith cynllunio, adeiladau a mecanweithiau casglu data'n cael eu hystyried yn ofalus. Ystyriwyd bod mecanweithiau casglu data sydd wedi eu

¹⁸ Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Ymateb i'r Ymgynghoriad SLM16, *Ymchwiliad i Reoli Tir yn Gynaliadwy yng Nghymru; Cyflwyniad gan Cyfoeth Naturiol Cymru*, Medi 2013

¹⁹ Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, *Ymchwiliad i Rywogaethau Goresgynnol Estron*, Ionawr 2014

cynllunio'n well a gwneud gwell defnydd o waith partneriaeth yn bwysig iawn o ystyried y prinder adnoddau sydd ar gael i gasglu data.

40. Soniodd rhai rhanddeiliaid am bwysigrwydd cynnwys a rhoi grym i'r rheolwyr tir eu hunain i gasglu data yn hytrach na chael sefydliadau allanol i wneud hynny. Defnyddiwyd Fish Map Môn fel enghraifft o faes yr amgylchedd morol lle mae pysgotwyr wedi'u hyfforddi ac wedi derbyn cyfarpar i gasglu data ar bysgodfeydd eu hunain.

41. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Countryside and Community Research Institute (CCRI), Prifysgol Swydd Gaerloyw, y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio ymhellach i gyfraniad y cyhoedd at waith casglu data, neu 'wyddor dinasyddion'. Dywedodd:

“Given the acknowledged lack of ‘official’ resources available to collect baseline data for Wales, serious consideration needs to be given to exploring opportunities for gathering ‘crowd-sourced’ data from land managers themselves as well as members of the public.”²⁰

42. Nododd CCRI y gallai casglu data fel hyn, er enghraifft gydag aps ffonau clyfar, fod yn werthfawr wrth ddilysu a dod o hyd i'r sefyllfa go iawn ar lawr gwlad (yn enwedig o ffynonellau pell), a llenwi bylchau yng nghwmpas y data sydd ar gael.²¹

Barn Llywodraeth Cymru

43. Roedd y Gweinidog yn cydnabod bod rhai bylchau gwirioneddol yn y wybodaeth ac o ran casglu data.²² Mae o'r farn bod yr adroddiad Sefyllfa Byd Natur yn cadarnhau hyn. Mae'n awyddus i ddefnyddio'r ffynonellau data gwahanol sydd ar gael yng Nghymru, ond mae am sicrhau bod dull cyson o gasglu data.²³

44. Mae'r Gweinidog wedi rhoi dyletswydd ar Cyfoeth Naturiol Cymru, drwy'r llythyr cylch gwaith blynyddol, i ddatblygu canolfan ddata.

²⁰ Papur y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd E&S(4)-06-14 Papur 4, *Ymchwiliad i Reoli Tir yn Gynaliadwy yng Nghymru; Cyflwyniad gan y Countryside and Community Research Institute (CCRI) a Phrifysgol Swydd Gaerloyw*, 20 Chwefror 2014

²¹ Ibid

²² Cofnod y Trafodion [para 15], 1 Mai 2014, y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

²³ Ibid [para 22]

Credai fod gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddigon o adnoddau eisoes i wneud hyn.²⁴

45. Bydd y Gronfa Natur hefyd yn cael ei defnyddio i wella'r broses o gasglu data.

46. Mae Llywodraeth Cymru'n ymgysylltu'n weithgar â phrosiect COBWEB Citizen Observatory Web yr Undeb Ewropeaidd. Roedd y Gweinidog o blaid defnyddio gwyddor dinasyddion lle'n briodol.²⁵

Barn y Pwyllgor

47. Mae'r diffyg data sydd ar gael i ddatblygu polisi a mesur ei ganlyniadau'n ddigonol wedi bod yn thema gyson gydol ein gwaith yn ystod yr ymchwiliad - er enghraifft mewn perthynas â pholisi morol a mynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol estron. Rydym yn falch o glywed bod y Gweinidog yn cymryd camau i fynd i'r afael â hyn.

48. Er mwyn sicrhau dull cyson o fynd i'r afael â bylchau mewn gwybodaeth, credwn fod angen fframwaith data a thystiolaeth a ddylai nodi ffynonellau data cyfredol, y sefydliadau sy'n cyfrannu at y gwaith o gasglu data yng Nghymru ar hyn o bryd a bylchau mewn gwybodaeth.

49. Dylai'r fframwaith hwn gynnwys cynllun gweithredu sy'n rhoi blaenoriaeth i wella'r broses o gasglu data a nodi rôl gwahanol randdeiliaid yn y broses honno. Dylai'r fframwaith fod ag amcanion clir a bod yn bendant ynglŷn â beth yn union rydym yn bwriadu ei fesur gyda'r data a gesglir. Hefyd, wrth gynllunio'r fframwaith hwn dylem ystyried yn ofalus pa adnoddau sydd ar gael i'n cynorthwyo i gasglu data yng Nghymru. Dylai'r gwaith hwn adeiladu ar y gwaith sy'n cael ei wneud eisoes gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â data ar fioamrywiaeth a sicrhau y bydd yn gallu cefnogi gweithredu cynlluniau rheoli ardaloedd adnoddau naturiol.

50. Mae angen gwneud rhagor o waith i gynnwys rheolwyr tir yn y broses o gasglu data. Dylai Llywodraeth Cymru, fel rhan o'i gwaith ar gynlluniau rheoli adnoddau naturiol a Glastir, ystyried datblygu cynlluniau peilot i fynd i'r afael â hyn. Drwy wneud hynny, mae'n

²⁴ Cofnod y Trafodion [para 18], 1 Mai 2014, y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

²⁵ Ibid [para 20]

hollbwysig bod y data sy'n cael ei gasglu ac unrhyw gasgliadau a geir o'r data yn cael eu bwydo'n ôl yn ystyrllon i reolwyr tir.

Argymhelliad 6 – datblygu strategaeth fonitro

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu a mabwysiadu fframwaith tystiolaeth i asesu cynnydd tuag at reoli tir yn gynaliadwy yng Nghymru. Dylai'r fframwaith:

- nodi ffynonellau data a bylchau mewn gwybodaeth ar hyn o bryd;
- cynnwys amcanion clir ynglŷn â pha ddangosyddion cynnydd y bydd angen i ni eu mesur
- hyn, dylai nodi cynllun gweithredu gyda blaenoriaethau ar gyfer gwella'r broses o gasglu data
- rhoi arwydd o'r adnoddau y bydd eu hangen arnom i gyflawni ein hamcanion; a
- nodi rôl gwahanol sefydliadau yn y broses o gasglu data.

Dylai'r gwaith hwn adeiladu ar y gwaith sy'n cael ei wneud eisoes gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â data ar fioamrywiaeth a chefnogi'r broses o roi'r Bil Amgylchedd ar waith. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru roi'r argymhelliad hwn ar waith erbyn diwedd mis Mawrth 2015.

Argymhelliad 7 – datblygu cynlluniau peilot ar gyfer casglu data

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu cynlluniau peilot i gynnwys rheolwyr tir yn y broses o gasglu data. Drwy wneud hynny, dylai sicrhau bod y data sy'n cael ei gasglu ac unrhyw gasgliadau a geir o'r data yn cael eu bwydo'n ôl yn ystyrllon i reolwyr tir. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru ddarparu manylion i ni ar sut a phryd y bydd yn rhoi'r argymhelliad hwn ar waith wrth ymateb i'r adroddiad hwn.

4. Cyfathrebu a Throsglwyddo Gwybodaeth

Barn rhanddeiliaid

51. Derbyniwyd llawer o dystiolaeth gennym ar yr angen i wella sut y trosglwyddir gwybodaeth newydd i reolwyr tir.

52. Mae hyn yn cynnwys yr angen i wella'r ffordd y trosglwyddir gwybodaeth dechnolegol a gwyddonol ar arferion ffermio effeithiol a'r angen i wella'r gwasanaethau cynghori a gynigir i reolwyr tir ar gadwraeth a darparu gwasanaethau ecosystemau.

53. Nid yw hyn yn golygu bod rhanddeiliaid a'r farn bod y gweithgareddau cyfathrebu cyfredol yn wael; ond yn hytrach eu bod yn darparu sylfaen gadarn y gellid ei datblygu ymhellach i sicrhau canlyniadau rheoli tir yn gynaliadwy. Er enghraifft, y farn yn gyffredinol oedd bod Cyswllt Ffermio, yn enwedig yr elfen Ffermydd Arddangos, yn fodel darparu llwyddiannus yn y sector amaethyddol.

54. Nododd rhanddeiliaid o'r sector coedwigaeth y byddent am weld model 'ar ffurf Cyswllt Ffermio' yn cael ei ddefnyddio yn eu sector.

Gwasanaethau Ecosystem

55. Yn ystod ein gweithdy ar faterion allweddol a chasgliadau drafft, cafwyd trafodaeth am drosi'r naratif mewn perthynas â 'gwasanaethau ecosystem' i iaith ac enghreifftiau sy'n golygu rhywbeth i reolwyr tir ar lawr gwlad.

56. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, nododd Cyfoeth Naturiol Cymru y dylid defnyddio prosiectau enghreifftiol gan y gellir eu defnyddio i brofi dulliau newydd a rhannu negeseuon allweddol gyda rheolwyr tir a llunwyr polisi.²⁶ Mewn tystiolaeth ysgrifenedig a llafar, nododd y ddau undeb ffermwyr mai un o'r ffyrdd gorau o drosglwyddo gwybodaeth i ffermwyr oedd drwy ddarparu enghreifftiau ymarferol iddynt drwy ffermydd arddangos.

²⁶ Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Ymateb i'r Ymgynghoriad SLM16, *Ymchwiliad i Reoli Tir yn Gynaliadwy yng Nghymru; Cyflwyniad gan Cyfoeth Naturiol Cymru*, Medi 2013

57. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, galwodd RSPB Cymru, Ymddiriedolaethau Bywyd Gwylt Cymru a Coed Cadw ar Cyfoeth Naturiol Cymru i ddangos esiampl o arferion gorau ar ei dir ei hun.

58. Nododd rhai rhanddeiliaid y dylai trosglwyddo gwybodaeth hefyd yn fod yn broses ddwy ffordd. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, tynnodd CCRI sylw at waith y mae'n ei wneud i Natural England i werthuso Rhaglen Hyfforddiant Ffermydd Mynyddig yn Cumbria a Dartmoor, lle mae ffermwyr yn gweithredu fel hyfforddwyr ar gyfer gweithwyr cadwraeth proffesiynol. Nododd:

“As conservation professionals are made more aware of farmers’ business preoccupations and concerns, they are more able to identify aspects of payment schemes which will be most attractive to farmers, and to put together incentive packages which can attract a good level of uptake and continued commitment from farm families”²⁷

Gwyddoniaeth a Thechnoleg Amaethyddol

59. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig a llafar, nododd Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS)²⁸ fod datblygiadau arloesol newydd yn cael eu creu yn aml yng Nghymru ond nad oeddynt yn cael eu cyfathrebu o reidrwydd i ddiwydiannu yng Nghymru yn gyntaf. Credai llawer o randdeiliaid bod cael un o sefydliadau mwyaf blaenllaw y byd fel IBERS yng Nghymru yn gyfle i roi mantais gystadleuol i Gymru, pe gellid gwella cysylltiadau rhwng ymchwil a diwydiant.

60. Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd yr Athro Newbold IBERS:

“We as a nation should take advantage of the technologies that we generate, and then we should export out of the country. We have the ability, due to the size of the country, to operate as a single unit. We can have a laboratory Wales.”²⁹

²⁷ Papur y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd E&S(4)-06-14 Papur 4, *Ymchwiliad i Reoli Tir yn Gynaliadwy yng Nghymru; Cyflwyniad gan Countryside and Community Research Institute (CCRI) a Phrifysgol Swydd Gaerloyw*, 20 Chwefror 2014

²⁸ IBERS yw Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig ym Mhrifysgol Aberystwyth

²⁹ Cofnod y Trafodion [para 3], 20 Chwefror 2014, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

61. Aeth yr Athro Newbold ymlaen i nodi y gellid gwella cysylltiadau rhwng ymchwil a diwydiant drwy gael ffermydd arddangos nad ydynt yn arddangos arferion gorau heddiw, ond yn arddangos arferion gorau yn 2030. Dywedodd hefyd y dylid dosbarthu gwybodaeth yn gynharach:

“we have to move science from the laboratory. We have a tendency of waiting until we are finished before we try to disseminate it. I think that, if we take farmers on the journey with us, they will take the technology up much earlier.”³⁰

Barn Llywodraeth Cymru

62. Roedd y Gweinidog yn cydnabod bod ymchwil o safon byd yn cael ei chynnal yng Nghymru i faes rheoli tir yn gynaliadwy, ond bod bwlb wrth gyfleu canlyniadau'r ymchwil hon i reolwyr tir ar lawr gwlad.³¹

63. Mae wedi comisiynu Gareth Wyn Jones i gynnal adolygiad annibynnol o'r dysgu sy'n cael ei ddarparu gan golegau addysg bellach a pherthnasedd y ddarpariaeth honno wrth gefnogi busnesau fferm yng Nghymru.³²

64. Bydd hwyluso cynyddol o hyfforddiant a chefnogaeth rhwng ffermwyr â'i gilydd a hyfforddiant i alluogi hyn i ddigwydd yn rhan o ddyfodol Glastir.

Barn y Pwyllgor

65. Rydym wedi clywed a gweld bod ymchwil ac arloesedd o safon byd yn digwydd yng Nghymru, ond nad yw'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial yng Nghymru. Credwn fod angen i Lywodraeth Cymru wneud mwy i bontio'r bwlb rhwng y rheolwr tir ar lawr gwlad a'n canolfannau ymchwil.

66. Dylid darparu cymorth drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig i drosglwyddo gwybodaeth yn well i reolwyr tir ar gyfer sgiliau rheoli tir

³⁰ Cofnod y Trafodion [para 32], 20 Chwefror 2014, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

³¹ Cofnod y Trafodion [para 93], 1 Mai 2014, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

³² Llywodraeth Cymru, Alun Davies (y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd), *Adolygiad annibynnol o'r hyn a addysgir gan golegau addysg bellach a pherthnasedd hynny o ran helpu busnesau fferm yng Nghymru*, Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet 4 Mawrth 2014

yn gynaliadwy ac i drosglwyddo technolegau newydd a datblygiadau gwyddonol.

67. Mae angen ehangu'r dull a ddefnyddir gan Cyswllt Ffermio i gefnogi gwasanaethau i ddarparu gwasanaethau pwrpasol i reolwyr tir, gan gynnwys y sector coedwigaeth. Os yw'r Cynllun Datblygu Gwledig yn mynd i gefnogi camau tuag at gynorthwyo gwasanaethau ecosystemau, yna gallai Cyswllt Ffermio helpu i baratoi ffermwyr ar gyfer darparu'r gwasanaethau hyn. Gallai enghreifftiau gynnwys cyngor ar arallgyfeirio a/neu reoli bioamrywiaeth.

68. Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i ffyrdd o roi datblygiadau newydd o sefydliadau ymchwil Cymru ar waith yn ymarferol ar ffurf enghreifftiau sy'n hygyrch i reolwyr tir, a'n gobaith yw y bydd y gwaith sy'n cael ei wneud gan Gareth Wyn Jones yn cynorthwyo gyda hyn.

69. Rydym yn falch bod y Gweinidog yn ystyried cynnwys cefnogi trosglwyddo gwybodaeth rhwng ffermwyr â'i gilydd yn ei waith i goethi'r cynllun Glastir. Mae rhanddeiliaid o blaid dull o'r fath. Byddem hefyd yn hoffi gweld y potensial ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth ddwy ffordd rhwng rheolwyr tir a'r sector cadwraeth yn cael ei bwysu a'i fesur ymhellach. Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â'r CCRI er mwyn edrych ymhellach ar eu gwaith yn y maes hwn.

Argymhelliad 8 – gwella'r ffordd o drosglwyddo gwybodaeth

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y Cynllun Datblygu Gwledig a'r cynllun Glastir diwygiedig yn cael eu defnyddio i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo'n well o'n canolfannau ymchwil i reolwyr tir ar lawr gwlad ac i gefnogi a hwyluso trosglwyddo gwybodaeth rhwng rheolwyr tir. Hefyd, dylid ehangu'r gefnogaeth hon i annog ymchwil a datblygu sy'n adlewyrchu anghenion rheolwyr tir.

70. Wrth gyflawni'r argymhelliad uchod, bydd angen sefydlu mesurau perfformiad er mwyn gallu monitro cynnydd. Rydym yn bwriadu ystyried hyn ymhellach gyda'r Gweinidog pan fydd y Cynllun Datblygu Gwledig a'r newidiadau i Glastir yn derfynol.

Argymhelliad 9 – ehangu Cyswllt Ffermio

Rydym yn argymhell ehangu'r dull a ddefnyddir gan Cyswllt Ffermio i gefnogi gwasanaethau i ddarparu gwasanaethau pwrpasol i

reolwyr tir, gan gynnwys y sector coedwigaeth, mewn perthynas ag arferion rheoli tir yn gynaliadwy.

5. Proffidioldeb Gwledig a Chynhyrchu Bwyd

Barn Rhanddeiliaid

71. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd i ni gydol yr ymchwiliad hwn wedi bod yn glir bod ffermwyr yn anad dim am barhau'n gynhyrchwyr bwyd ac y dylai hon barhau'n brif swyddogaeth iddynt yn y dyfodol. Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd Mr Bailey, Llywydd NFU Cymru ar y pryd:

“We have a £3 billion food and drink industry in Wales, of which farming is the cornerstone. It is a sizable part of the Welsh economy, and the survivability of the agriculture industry now and in the future will depend on the profitable production of food. However, we cannot ignore the need to maintain that food production and to increase it as the population of the world continues to grow.”³³

72. At hyn, yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru:

“bydd ein haelodau yn dweud fod arnynt angen llonydd i barhau i ffermio, yn lle cael eu llesteirio gan waith papur neu eu gorfodi i fod yn geidwaid. Mae arnom eisiau cynhyrchu bwyd i'n gwlad, ac wrth wneud hynny, credwn y gallwn hefyd gyflawni defnydd tir cynaliadwy wrth i gynhyrchedd uchel gael ei gyfuno ag arferion rheoli tir da.”³⁴

73. Nododd rhai o'r cynrychiolwyr ffermio a'r ffermwyr a ddarparodd dystiolaeth i'r ymchwiliad hwn ddwysáu cynaliadwy fel system a allai alluogi ffermwyr i gynyddu eu cynhyrchiant ond gan effeithio llai ar yr amgylchedd. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig a llafar, disgrifiodd NFU Cymru ac IBERS ddwysáu cynaliadwy yn fras fel 'cynhyrchu mwy ac effeithio llai'. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, nododd NFU Cymru:

“The term “sustainable intensification” was first formally coined by the Royal Society in a report it published in October 2009 as a means of encapsulating the most important single response

³³ Cofnod y Trafodion [para 10], 24 Hydref 2013, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

³⁴ Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Papur E&S(4)-25-13 Papur 3, *Ymchwiliad i Reoli Tir yn Gynaliadwy yng Nghymru; Cyflwyniad gan Glybiau Ffermwyr Ifanc Cymru*, 24 Hydref 2013

to the global challenges of food security, environmental protection and climate change.”³⁵

74. Tynnwyd ein sylw at waith y Grŵp Polisi Defnydd Tir (LUPG) sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Cyfoeth Naturiol Cymru ar ddwysáu cynaliadwy. Comisiynodd LUPG adroddiad (a gyhoeddwyd yn 2013) i asesu ar draws gwahanol fathau o ffermydd a rhanbarthau ym Mhrydain a oedd modd cynyddu cynhyrchiant gan sicrhau manteision amgylcheddol ar yr un pryd, h.y. i ddwysáu cynhyrchiant yn gynaliadwy.³⁶

75. Daeth yr adroddiad i'r casgliad ei bod yn bosibl mewn rhai systemau ffermio i gynyddu cynhyrchiant a gwella'r amgylchedd, ond na fyddai'n ddymunol, o bosibl, mewn systemau ffermio eraill, fel ardaloedd ucheldir. Daeth i'r casgliad y dylai ffermydd yn yr ardaloedd hyn ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau ecosystem yn hytrach na cheisio dwysáu lefelau cynhyrchiant cyfredol.

76. Crybwyllodd rhai rhanddeiliaid faterion yn ymwneud â mynediad i'r diwydiant amaethyddiaeth ac, yn arbennig, y materion sy'n ymwneud â chynllunio olyniaeth a mynediad i dir ar gyfer ffermwyr ifanc. Awgrymodd rhai rhanddeiliaid y dylid darparu cyngor a chymhellion pellach i ffermwyr presennol sy'n ystyried ymddeol o'r diwydiant i gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer ffermwyr ifanc; fodd bynnag, roedd eraill yn pwysleisio y dylid pwylllo yn y maes hwn ac y dylid ystyried yr hyn y gellid ei gyflawni'n realistig o fewn y ddeddfwriaeth sy'n bodoli'n barod.

77. Yn ogystal â phroffidioldeb ffermydd, tynnwyd sylw'r Pwyllgor mewn tystiolaeth ysgrifenedig a llafar at gyfraniad y sector coedwigaeth a phren i'r economi gwledig. Pwysleisiwyd y pwynt hwn yn gadarn gan UPM Tilhill yn ystod ein hail weithdy i randdeiliaid.

³⁵ Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Ymateb i'r Ymgynghoriad SLM14, *Ymchwiliad i Reoli Tir yn Gynaliadwy yng Nghymru; Cyflwyniad gan NFU Cymru, Medi 2013*

³⁶ Elliott, Firbank, Drake, Cao a Gooday, Exploring the Concept of Sustainable Intensification, *Land Use Policy Group*, Ionawr 2013

Barn Llywodraeth Cymru

78. Mae'r Gweinidog yn credu bod y dadleuon bod cynhyrchu bwyd yn bwysicach na gweithgareddau eraill yn hen ffasiwn ac o'r 20fed Ganrif.³⁷

79. Dywedodd wrthym fod rheolwyr tir yn gallu ac yn gorfod cyflawni mewn sawl maes os ydynt am gynnal busnesau fferm cynaliadwy, gan gynnwys: cynhyrchu bwyd; rheoli amgylcheddol; a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

80. Mae'n credu bod y gwrthdaro deul rhwng cynhyrchu bwyd a gweithgarwch arall yn ddeuliaeth ffug ac y bydd gan wahanol fusnesau fferm wahanol flaenoriaethau.³⁸ Dadleuodd mai gorsymleiddio oedd dweud bod un agwedd ar fusnes fferm yn bwysicach nag agweddau eraill.

81. Mynegodd y Gweinidog ei bod yn well ganddo'r cysyniad o 'gynhyrchu cynaliadwy' na 'dwysáu cynaliadwy'.

Barn y Pwyllgor

82. Mae'n amlwg i ni y dylai cynhyrchu bwyd barhau i fod wrth wraidd busnesau fferm ochr yn ochr â gweithgareddau rheoli tir eraill.

83. Mae tystiolaeth gyfredol yn awgrymu i ni nad yw dwysáu cynaliadwy yn ddull addas o reoli ffermydd ucheldir yng Nghymru. Mae'n fodel a allai gynnig manteision i rai mathau o ffermio, ond dim ond mewn cymharol ychydig o leoliadau yn unig yng Nghymru.

84. Fodd bynnag, rydym o blaid darparu cefnogaeth i ffermydd i'w helpu i fod yn fwy effeithlon o ran adnoddau a chynaliadwy'n ariannol a hefyd yn cytuno â barn y Gweinidog bod cyfle i fynd ati i gynhyrchu'n fwy cynaliadwy yng Nghymru.

85. Rydym o blaid cynigion Llywodraeth Cymru i gynnwys cynllun cymorth i newydd-ddyfodiaid yn y Cynllun Datblygu Gwledig nesaf, ond credwn y dylid ystyried rhoi cyngor a chymorth i ffermwyr presennol ar gynllunio olyniaeth.

³⁷ Cofnod y Trafodion [para 44 a 51], 1 Mai 2014, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

³⁸ Ibid [para 47]

86. Rydym yn cydnabod rôl bwysig coedwigaeth a phren i'r economi gwledig ac yn credu bod gan y sector rôl bwysig yn nyfodol rheoli tir yn gynaliadwy yng Nghymru. Dylid hefyd ystyried cymorth i helpu i ddarparu sector coedwigaeth cynaliadwy yng Nghymru.

Argymhelliad 10 - cynllunio olyniaeth

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried cynnwys darpariaeth cyngor a chymorth ar gynllunio olyniaeth i ffermwyr presennol yn y Cynllun Datblygu Gwledig nesaf.

6. Darparu Gwasanaethau Ecosystemau

Barn rhanddeiliaid

87. Roedd rhanddeiliaid yn cytuno y bydd darparu gwasanaethau ecosystemau yn chwarae rôl gynyddol bwysig o ran rheoli tir yng Nghymru. Clywsom dystiolaeth fod darparu'r gwasanaethau hyn yn bwysig nid yn unig oherwydd y nwyddau cyhoeddus y maent yn eu darparu, ond hefyd am eu bod yn cynnig ffynhonnell incwm amgen i reolwyr tir. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, nododd Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad:

“A sustainable living standard will not be achieved by dependence on selling agricultural products alone. Land managers should not be expected to cross-subsidise the delivery of environmental public goods and services from their market returns. It is therefore necessary to ensure that proper public payment for the value of public goods and services delivered is guaranteed.”³⁹

88. Cawsom nifer o enghreifftiau o brosiectau lle'r oedd rheolwyr tir yng Nghymru eisoes yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau ecosystemau fel Prosiect Plumlumon, ac rydym wedi cyhoeddi nifer o'r astudiaethau achos hyn ar ein gwefan.⁴⁰ Roedd enghreifftiau a roddwyd i ni o wasanaethau ecosystemau y gellid talu rheolwyr tir i'w darparu yn cynnwys ansawdd dŵr, lleihau'r risg o lifogydd, ynni adnewyddadwy, deunyddiau adeiladu pren cynaliadwy a dal a storio carbon. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, awgrymodd Ymddiriedolaethau Bywyd Gwylt Cymru y gall rheoli tir yn gynaliadwy ddarparu gwasanaethau diwylliannol hefyd fel twristiaeth.

89. Dadleuodd RSPB Cymru, Ymddiriedolaethau Bywyd Gwylt Cymru a Coed Cadw, yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ddangos esiampl o ddarparu gwasanaethau ecosystemau drwy dreialu cynlluniau ar ystâd Llywodraeth Cymru.

90. Er bod cefnogaeth gyffredinol dros ddarparu gwell gwasanaethau ecosystemau, nododd llawer o sefydliadau fod angen gwneud mwy o

³⁹ Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Ymateb i'r Ymgynghoriad SLM17, *Ymchwiliad i Reoli Tir yn Gynaliadwy yng Nghymru; Cyflwyniad gan Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad*, Medi 2013

⁴⁰ Gweler <http://tinyurl.com/nzwyzhf> [Fel ar 16 Ebrill 2014]

waith i ddatblygu marchnadoedd ar gyfer y gwasanaethau hyn ac i gynllunio mecanwaith monitro addas i arddangos cynnydd. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, nododd Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru fod methiant yn y farchnad ar hyn o bryd a phrin fod unrhyw fecanweithiau i sicrhau bod ffermwyr a thirfeddianwyr yn derbyn arian er mwyn darparu nwyddau a gwasanaethau ecosystemau.⁴¹ Nododd rhanddeiliaid ddwy ffordd y gellid mynd i'r afael â'r methiant hwn yn y farchnad: drwy ddarparu cymorth cyhoeddus drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig a pholisïau eraill y llywodraeth; a drwy sbarduno marchnadoedd preifat ar gyfer buddsoddi mewn gwasanaethau a ddarperir gan dirfeddianwyr a thalu amdanynt.

91. Dywedodd y rhan fwyaf o randdeiliaid fod gan y Cynllun Datblygu Gwledig nesaf rôl bwysig yn y gwaith o ddarparu cynlluniau sy'n cefnogi darpariaeth gwasanaethau ecosystemau gan reolwyr tir yng Nghymru. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, nododd Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain fod y cynllun datblygu gwledig nesaf ar gyfer Cymru yn sbardun allweddol ar gyfer dewisiadau rheoli tir.⁴² Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru nifer o argymhellion ar gyfer rhaglenni y gellid eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Gwledig nesaf i gefnogi darpariaeth gwasanaethau ecosystemau, gan gynnwys darparu gwell gwasanaethau cynghori a darparu cynllun benthyciadau i helpu gyda buddsoddiadau cyfalaf ar ffermydd.

92. Fodd bynnag, nodwyd cyfyngiadau ar y defnydd o gronfeydd datblygu gwledig i gefnogi darpariaeth ecosystemau hefyd. Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at y cyfyngiadau yn sgil y gofyniad bod taliadau o dan y Cynllun Datblygu Gwledig yn cael eu gwneud ar sail incwm a gollwyd/costau a ddaeth i'w rhan. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, nododd FUW:

“Currently agri-environmental payments supported under Pillar II of the CAP are made on the basis of compensation for profit foregone plus costs which cannot include a profit element. This means that there is little real incentive for farmers to adopt the

⁴¹ Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Ymateb i'r Ymgynghoriad SLM10, *Ymchwiliad i Reoli Tir yn Gynaliadwy yng Nghymru; Cyflwyniad gan Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru*, Medi 2013

⁴² Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Ymateb i'r Ymgynghoriad SLM3, *Ymchwiliad i Reoli Tir yn Gynaliadwy yng Nghymru; Cyflwyniad gan Gymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain*, Medi 2013

wider provision of public goods and services on improved land or undertaking high nature value farming practices on semi natural areas.”⁴³

93. Roedd NFU Cymru a'r Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad o'r un farn yn eu tystiolaeth ysgrifenedig ac roedd yn fater o godwyd mewn nifer o grwpiau gweithdy. I oresgyn y broblem hon, awgrymodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ei dystiolaeth ysgrifenedig y dylid cynllunio cynlluniau datblygu gwledig i ddarparu cyllid cychwynol ar gyfer prosiectau sy'n gallu denu buddsoddiad ychwanegol gan y sector preifat.⁴⁴

94. Yn ei dystiolaeth lafar, awgrymodd Mr Pawson o Cyfoeth Naturiol Cymru y gallai dull mwy 'creadigol' o gyfrifo incwm a gollwyd a chostau a ddaeth i'w rhan o dan gynlluniau datblygu gwledig gynyddu'r symiau a delir i dirfeddianwyr.⁴⁵ Hefyd, nododd Ymddiriedolaethau Bywyd Gwylt Cymru yn eu tystiolaeth lafar y gallai portffolios Gweinidogol eraill ddarparu cefnogaeth i wasanaethau ecosystemau, gan gynnwys cefnogaeth ar gyfer prosiectau bywyd gwylt sy'n denu twristiaeth a chefnogaeth i brosiectau sy'n ceisio lleihau seilwaith risg o lifogydd.

95. Mewn perthynas â buddsoddiad y sector preifat mewn gwasanaethau ecosystemau, darparodd rhai rhanddeiliaid enghreifftiau lle mae hyn wedi digwydd eisoes, fel cwmnïau dŵr yn cefnogi cynlluniau seiliedig ar dir i wella ansawdd dŵr, ond dywedodd fod angen gwneud mwy o waith i gefnogi datblygiad y marchnadoedd hyn yn yr hirdymor. Mae'r Papur Gwyn ar y Bil Amgylchedd yn cynnwys cynigion i roi'r dasg o hwyluso marchnadoedd ar gyfer gwasanaethau ecosystemau yn nwylo Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn ystod y gweithdy, cyfeiriodd rhai rhanddeiliaid at waith sy'n cael ei wneud eisoes gan Lywodraeth Cymru i edrych ar fecanweithiau taliadau ar gyfer gwasanaethau ecosystemau.

⁴³ Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Ymateb i'r Ymgynghoriad SLM13, *Ymchwiliad i Reoli Tir yn Gynaliadwy yng Nghymru; Cyflwyniad gan FUW*, Medi 2013

⁴⁴ Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Ymateb i'r Ymgynghoriad SLM15, *Ymchwiliad i Reoli Tir yn Gynaliadwy yng Nghymru; Cyflwyniad gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog*, Medi 2013

⁴⁵ Cofnod y Trafodion [para 67], 29 Ionawr 2014, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Barn Llywodraeth Cymru

96. Bydd darpariaeth gwasanaethau ecosystemau yn sail i bob penderfyniad a wneir mewn perthynas â'r Cynllun Datblygu Gwledig nesaf.⁴⁶

97. Mae'r Gweinidog yn gweithio gyda chydweithwyr yn y cabinet, gan gynnwys Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, i ddatblygu taliadau ar gyfer gwasanaethau ecosystemau.⁴⁷

98. Yn ogystal â hyn, dywedodd y Gweinidog ei fod yn cydnabod bod angen sefydlu marchnadoedd – y cyswllt rhwng prynwyr a gwerthwyr – a'i fod ar hyn o bryd yn disgwyl am ganlyniadau ymchwil y mae wedi'i chomisiynu yn y maes hwn.⁴⁸

Barn y Pwyllgor

99. Mae nifer o brosiectau da ar waith yng Nghymru sy'n dangos y potensial ar gyfer datblygu gwasanaethau ecosystemau. Mae ein cofrestr o astudiaethau achos, sydd wedi'i chyhoeddi ar ein gwefan, yn rhoi cipolwg ar y gwaith da hwn. Fodd bynnag, mae nifer o'r prosiectau a'r cynlluniau hyn yn gweithredu ar eu pen eu hunain ac mae angen gwneud mwy i ddwyn y gwaith hwn ynghyd.

Argymhelliad 11 – cydlynu gwaith ar wasanaethau ecosystem

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd rôl gydlynol i ddwyn ynghyd y gwaith sy'n cael ei wneud eisoes drwy brosiectau unigol ar ddarparu gwasanaethau ecosystemau a dosbarthu'r gwaith hwnnw. Efallai y bydd am ystyried yr astudiaethau achos a gasglwyd ac a gyhoeddwyd gennym yn <http://tiny.cc/ey27ex>

100. Credwn y bydd datblygu system talu am wasanaethau ecosystemau (TWE) yn hollbwysig i sicrhau dyfodol cynaliadwy i Gymru.

⁴⁶ Cofnod y Trafodion [para 85], 1 Mai 2014, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

⁴⁷ Ibid [para 87]

⁴⁸ Ibid [para 90]

101. Mae'n galonogol clywed bod gwaith yn cael ei wneud ar draws adrannau yn Llywodraeth Cymru i ddatblygu TWE, ond mae angen rhagor o wybodaeth arnom am sut bydd hyn yn cael ei wneud.

Argymhelliad 12 – talu am wasanaethau ecosystemau

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut y bydd yn cefnogi datblygiad system talu am wasanaethau ecosystemau a'r amserlen y mae'n rhagweld ar gyfer datblygu a/neu ddefnyddio marchnadoedd priodol ar gyfer gwasanaethau ecosystemau yng Nghymru. Gofynnwn iddi ddarparu'r wybodaeth hon i ni cyn diwedd 2014.

102. Mae llawer o dir yng Nghymru yn eiddo cyhoeddus. Dylai Llywodraeth Cymru annog Cyfoeth Naturiol Cymru i ddangos esiampl o ran sut i reoli tir yn gynaliadwy a darparu gwasanaethau ecosystemau. Rydym yn falch bod y Gweinidog wedi cadarnhau ei fod yn disgwyl i Cyfoeth Naturiol Cymru ddangos esiampl fel rheolwr tir.⁴⁹

103. Credwn fod y Cynllun Datblygu Gwledig nesaf yn cynnig cyfle pwysig i dreialu a phrofi modelu talu am wasanaethau ecosystemau yng Nghymru. Rydym yn cydnabod bod y ffordd y cyfrifir taliadau yn cyfyngu ar allu'r Cynllun Datblygu Gwledig i wir adlewyrchu gwerth y gwasanaethau a ddarperir gan reolwyr tir, ond gofynnwn i Lywodraeth Cymru weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu dull mwy creadigol o gyfrifo taliadau ar gyfer cynlluniau perthnasol.

104. Er bod y Cynllun Datblygu Gwledig nesaf yn hollbwysig ar gyfer treialu dulliau o dalu am wasanaethau ecosystemau, bydd maint y dasg sydd o'n blaenau yn gofyn am lawer mwy o fuddsoddiad nag y ceir yn y cynllun hwn yn unig. Felly, mae'n hollbwysig meithrin partneriaethau rhwng rheolwyr tir, y sector cyhoeddus a'r sector preifat i ddatblygu marchnadoedd ar gyfer gwasanaethau ecosystemau. Rydym yn nodi'r cynigion yn y Papur Gwyn ar y Bil Amgylchedd y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru weithredu fel brocer ar gyfer marchnadoedd newydd ac edrychwn ymlaen at dderbyn rhagor o wybodaeth am y cynnig hwn wrth i'r Bil gael ei ddatblygu.

⁴⁹ Cofnod y Trafodion [para 96], 1 Mai 2014, Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Argymhelliad 13 - treialu gwasanaethau ecosystemau

Rydym yn argymhell bod y Cynllun Datblygu Gwledig nesaf yn darparu cefnogaeth ar gyfer treialu a datblygu darpariaeth o wasanaethau ecosystemau drwy Glastir a drwy rannau eraill o'r cynllun, gan gynnwys trosglwyddo gwybodaeth a ffyrdd arloesol o gyllido fel benthyciadau. Wrth gyflawni'r argymhelliad hwn, dylai Llywodraeth Cymru ystyried yn ofalus sut mae'n cynllunio cyfraddau talu ar gyfer gwahanol gynlluniau.

Argymhelliad 14 - buddsoddiad gan y sector preifat

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn arwain y gwaith o ddatblygu partneriaethau i ddenu a chefnogi prosiectau gyda buddsoddiad gan fentrau yn y sector preifat.

Atodiad A – Cylch Gorchwyl

Mae digwyddiadau, astudiaethau ac adroddiadau diweddar wedi amlygu nad yw dyfodol cynaliadwy ar gyfer amaethyddiaeth a'n hamgylchedd yn sicr o bell ffordd. Ar ben hyn, mae agweddau o'r ddau yn arbennig o fregus a phrin yw eu gwytnwch yn wyneb newid annisgwyl.

O ran amaethyddiaeth a'r amgylchedd naturiol, mae'n glir inni nad allwn wireddu dyfodol cynaliadwy i un heb y llall. Dyna pam y credwn ei fod yn bwysig ein bod yn edrych ar wytnwch a chynaliadwyedd ein harferion o reoli tir a pholisiau yng Nghymru.

Ein bwriad yw casglu tystiolaeth a dadansoddi'r materion sy'n codi cyn dod i gasgliadau a llunio argymhellion i helpu i sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n defnyddio'i hoffer polisi i'r effaith orau bosibl i sicrhau bod ein tir yn cael ei reoli mewn modd cynaliadwy.

Er mwyn dod i'r pwynt hwn byddwn yn ystyried tri chwestiwn allweddol:

- Sut ydym am weld rheoli tir cynaliadwy yng Nghymru'n edrych a pha ganlyniadau rydym am eu sicrhau, yn y tymor byr, canol tymor a'r hir dymor?
- Beth yw'r rhwystrau sy'n ein hatal rhag sicrhau'r canlyniadau hyn yn awr?
- Sut ydym yn goresgyn y sialensiau hyn?
- Beth yw'r prif yrwyr polisi a sut y gellir llunio hyn i oresgyn yr heriau hyn?

Wrth wneud hyn, rydym yn dymuno'n arbennig (ond nid unig) i glywed eich barn ar:

- Sut yr ydym yn diffinio ecosystemau a gwasanaethau ecosystem allweddol mewn ffordd sy'n gwneud synnwyr i Gymru?
- Sut yr ydym yn datblygu llinell sylfaen o ble y gellid mesur cynnydd? Mae yma'n gynnwys sut yr ydym yn casglu, cydgysylltu a defnyddio data i gefnogi rheoli tir cynaliadwy yng Nghymru.

- Pa cymhellion y gallwn eu rhoi i reolwyr tir ddatblygu arferion cynaliadwy ac yn arbennig unrhyw ffynonellau newydd o fuddsoddiad y gallwn eu denu i gefnogi rhain?.
- Sut y gallwn sicrhau bod ein polisiau rheoli tir cynaliadwy yn cynnal cymunedau gwledig llewyrchus a denu newydd-ddyfodiaid i'r sector diwydiannau'r tir?
- Y raddfa(eydd) mwyaf addas ddaearyddol y dylem fod yn sicrhau polisiau ac arferion rheoli tir cynaliadwy yng Nghymru.
- Os oes camau allweddol y gallwn eu cymryd i gyflawni atebion sydyn yn y tymor byr a'r camau y dylem fod yn eu cymryd ar gyfer y tymor hir.

Wrth gynnal yr ymchwiliad hwn, rydym wedi cael ein harwain gan farn a safbwyntiau a fynegwyd wrthym yn ein gweithdy i randdeiliaid ar 3 Gorffennaf 2013.

Ein bwriad yw cynnal deialog gyda'r rhanddeiliaid hyn yn ystod yr ymchwiliad hwn.

Atodiad B - Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth i'r Pwyllgor. Gellir gweld trawsgrifiadau'r cyfarfodydd yn

www.senedd.cynulliadcymru.org/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=1308

24 HYDREF 2013	
Sesiwn 1	
Ed Bailey	Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru
Dylan Morgan	Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru
Gavin Williams	Undeb Amaethwyr Cymru
Rhian Nowell-Phillips	Undeb Amaethwyr Cymru
Sesiwn 2	
Ceri Davies	Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru
Sarah Price	Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru
Ben Underwood	Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad
Keri Davies	Grŵp Organig Cymru
15 IONAWR 2014	
Sesiwn 3	
Arfon Williams	RSPB Cymru
Annie Smith	RSPB Cymru
Rachel Sharp	Ymddiriedolaethau Natur Cymru
James Byrne	Ymddiriedolaethau Natur Cymru
Sesiwn 4	
Julian Atkins	Parciau Cenedlaethol Cymru
Geraint Jones	Parciau Cenedlaethol Cymru
Chris Lindley	Cymdeithas Genedlaethol yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol
23 IONAWR 2014	
Sesiwn 5	
Jerry Langford	Coed Cadw
Kath McNulty	Confor

Mike Harvey	Meithrinfeydd Coedwig Maelor Cyf
George McRobbie	UPM Tillhill
29 IONAWR 2014	
Sesiwn 6	
Joanne Sherwood	Cyfoeth Naturiol Cymru
Brian Pawson	Cyfoeth Naturiol Cymru
Sesiwn 7	
Ben Underwood	Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad
Gary Davies	Partneriaeth Ranbarthol De-orllewin Cymru
Dai Davies	Hybu Cig Cymru
Siôn Aron Jones	Hybu Cig Cymru
Sesiwn 8	
Chris Blake	Y Cymoedd Gwyrdd (Cymru)
Richard Tomlinson	Fre-energy
20 CHWEFROR 2014	
Sesiwn 9	
Yr Athro Jamie Newbold	Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS), Prifysgol Aberystwyth
Yr Athro Iain Donnison	Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS), Prifysgol Aberystwyth
Sesiwn 10	
Gary Douch	Cyswllt Ffermio
Eirwen Williams	Cyswllt Ffermio
Sesiwn 11	
Dr Shaun Russell	Canolfan Ymchwil Amgylcheddol Cymru
Sesiwn 12	
Yr Athro Janet Dwyer	Sefydliad Ymchwil Cefn Gwlad a Chymunedau (CCRI), Prifysgol Swydd Gaerloyw
Chris Short	Sefydliad Ymchwil Cefn Gwlad a Chymunedau (CCRI), Prifysgol Swydd Gaerloyw
1 MAI 2014	
Sesiwn 13	
Alun Davies AC	Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd
Kevin Austin	Llywodraeth Cymru
Nicola Thomas	Llywodraeth Cymru

Yn ogystal â'r sesiwn tystiolaeth lafar ffurfiol, cynhaliodd y Pwyllgor gyfres o ymweliadau safle hefyd:

27 MEHEFIN 2013
Prosiect Tirweddau Byw Pumlumon, Sir Drefaldwyn
Prosiect Gweilch y Dyfi, Sir Drefaldwyn
10 HYDREF 2013
Gwarchodfa Natur RSPB, Llyn Efyrynwy
24 HYDREF 2013
Gethin Havard, Fferm Llwynrhys
Darren Williams, Fferm Talwen Fawr
28 TACHWEDD 2013
Caryl Hughes, Fferm Llyndy Isaf
Gwyn Thomas, Fferm Blaen y Nant
Canolfan ymwelwyr Dyffryn Ogwen, Nant Ffrancon, Bethesda, Gwynedd

Cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau gweithdai hefyd i geisio barn rhanddeiliaid ar gwmpas yr ymchwiliad a'r casgliadau allweddol:

3 GORFFENNAF 2013
Gweithdy i lywio cylch gorchwyl yr ymchwiliad, Adeilad y Pierhead, Bae Caerdydd
27 MAWRTH 2014
Gweithdy i drafod casgliadau allweddol yr ymchwiliad, yr Eglwys Norwyaidd, Bae Caerdydd

Atodiad C - Tystiolaeth Ysgrifenedig

Cafwyd y dystiolaeth ysgrifenedig ganlynol. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn

www.senedd.cynulliadcymru.org/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=7047

<i>Sefydliad</i>	<i>Cyfeirnod</i>
Ray Woods	SLM 1
Cymdeithas Cenedlaethol Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol	SLM 2
Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain	SLM 3
Hybu Cig Cymru	SLM 4
Planhigfeydd Coedwig Maelor	SLM 5
Coed Cadw	SLM 6
Graham Taylor	SLM 7
Parciau Cenedlaethol Cymru	SLM 8
Dŵr Cymru	SLM 9
Ymddiriolaethau Natur Cymru	SLM 10
RSPB Cymru	SLM 11
Confor	SLM 12
Undeb Amaethwyr Cymru	SLM 13
NFU Cymru	SLM 14
Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	SLM 15
Cyfoeth Naturiol Cymru	SLM 16
Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad	SLM 17
David Thorpe	SLM 18
Paul Wimbush	SLM19